**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

20 Chwefror 2023

Annwyl Jenny,

Cytundeb rhwng y DU a'r Eidal ar gydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 13 Chwefror 2023, fe wnaethom ystyried y cytundeb rhwng y DU a'r Eidal ar gydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru at ddibenion cyfnewid.

Mae'r cytundeb yn rhoi'r hawl i ddeiliaid trwydded y DU sydd eisoes yn preswylio yn yr Eidal, neu a ddaw yn breswylwyr yno yn y dyfodol, gyfnewid eu trwydded yrru ar gyfer y DU heb fod angen sefyll prawf gyrru ymarferol neu brawf theori pellach. O dan y cytundeb hwn, byddai'r un driniaeth yn gymwys i ddeiliaid trwydded o'r Eidal sydd eisoes yn preswylio yn y DU, neu a ddaw yn breswylwyr yn y DU yn y dyfodol. Yn flaenorol, cyfraith yr UE oedd yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru rhwng y DU â'r Eidal. Daeth y trefniant hwn i ben pan ymadawodd y DU â'r UE.

Yn ystod ein hystyriaeth fe wnaethom gytuno i dynnu eich sylw at y cytundeb, i lywio gwaith monitro eich Pwyllgor o hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru wedi i'r DU ymadael â'r UE.

Cafodd ein hadroddiad ar y cytundeb ei osod heddiw.

Yn gywir

Huw

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament